

CYFARFOD Y CYNGOR – 25 EBRILL, 2018

DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL YR AMLINELLIR YN EITEM 9(B) O AGENDA Y CYNGOR

Yn unol â pharagraff 10.4.1, Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, fe dderbyniwyd y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig fel y nodir yn eitem 9 (b) o agenda'r Cyngor gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G. Davies, E.S.Stephens, L.Jones, S.Rees-Owen, M.Weaver, J.Williams, A.Cox, H.Fychan, J.Davies, J.Cullwick, E.Webster, S.Evans, A.Chapman, K.Morgan, D.Grehan a D.Macey: -

Ail baragraff, rhowch y geiriau canlynol ar ôl "bydd Aelodau,"

", yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r cynigion yn y Papur Gwyrdd, o'r enw 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl', yn gyfan gwbl neu'n rhannol,"

Gorffen y paragraff olaf drwy ychwanegu ar ôl "cyfrifol", "Bydd hyn yn ffurfio sail sylwadau'r Cyngor yma i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar unrhyw drefniadau newydd a all ddod i'r amlwg".

Os cytuna'r Cyngor i'r diwygiad yma, bydd y rhybudd o gynnig fel a ganlyn:

"Mae'r Cyngor yn nodi sawl anghysondeb o ran y gymhareb Cynghorydd-etholwr/preswilydd sawl ward yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae aelodau hefyd yn nodi bod modd lleihau nifer y cynrychiolwyr sy'n cael eu hethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn sylweddol oherwydd y gallu i ddefnyddio technoleg cyfathrebu ddatblygedig. Byddai hyn yn golygu bod rhagor o adnoddau ar gael ar gyfer gwasanaethau rheng flaen, megis addysg.

Gan gadw'r pethau yma mewn cof, bydd Aelodau, **yn amodol ar Lywodraeth Cymru yn mabwysiadu'r cynigion yn y Papur Gwyrdd, o'r enw 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl', yn gyfan gwbl neu'n rhannol**, yn gofyn i'r Swyddog sy'n gyfrifol am etholiadau i baratoi adroddiad ar gyfer Aelodau ynglŷn â sut mae modd aildrefnu wardiau'r sir er mwyn darparu balans Cynghorydd-etholwr/preswilydd sy'n fwy teg a chyfiawn gyda chymorth Gweithgor y Pwyllgor Craffu cyfrifol. **Bydd hyn yn ffurfio sail sylwadau'r Cyngor yma i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar unrhyw drefniadau newydd a all ddod i'r amlwg**".